British Red Cross

# Swyddog Prosiect Aduno Teuluoedd - Cyngor

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lefel Swydd** | Lefel 3 | **Rhif Cyfeirnod Swydd:** | #11277 |
| | | **Dyddiad Adolygu Rôl:** | Chwefror 2025 |
| **Cyfarwyddiaeth** | Adfer Cysylltiadau Teuluol | **Swyddogaeth** | |
| **Gwasanaeth** | Prosiect Cymorth Aduno Teulu | **Yn adrodd i** | Uwch Weithiwr Achos |

## Graddfa a chwmpas y rôl

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiadau Uniongyrchol** | Gwirfoddolwyr<br>Staff – i'w gadarnhau | **Adroddiadau anuniongyrchol** | Dim |
| **Atebolrwydd Cyllidebol** | Ddim yn berthnasol | **Atebol dros adnoddau eraill** | Ddim yn berthnasol |

*Yn ogystal â rheolaeth ffurfiol, fel y disgrifir uchod, bydd y rôl hefyd yn cael ei goruchwylio a'i chyfarwyddo'n anffurfiol gan reolwyr mewn rhannau eraill o'r sefydliad. Bydd hyn yn cael ei egluro wrth benodi a'i gadw dan adolygiad.*

## Cyd-destun

Rydym yn helpu unrhyw un, unrhyw le yn y DU ac ar draws y byd, i gael y cymorth sydd ei angen arnynt os bydd argyfwng yn taro: cysylltu caredigrwydd dynol â chryfder dynol.

Rydym yn galluogi pobl fregus yn y DU a thramor i baratoi ar gyfer ac i wrthsefyll argyfyngau yn eu cymunedau eu hunain. Ac ar ôl i'r argyfwng ddod i ben, rydym yn eu helpu i adfer a symud ymlaen gyda'u bywydau.

Rydym yn rhan o'r rhwydwaith dyngarol byd-eang Y Groes Goch a'r Hanner Lleuad Coch.

## Ein Gwerthoedd ac Egwyddorion

Mae ein gwerthoedd (caredig, dewr, cynhwysol a deinamig) yn sail i bopeth a wnawn. Fel aelod o Fudiad Y Groes Goch a'r Hanner Lleuad Coch, mae'r Groes Goch Brydeinig wedi ymrwymo i, ac wedi'i rhwymo gan, ei hegwyddorion sylfaenol: dynoliaeth, didueddrwydd, niwtraliaeth, annibyniaeth, gwasanaeth gwirfoddol, undod, ac eangder.

## Pwrpas y Rôl

Bydd y Swyddog Prosiect Aduno Teuluoedd yn darparu gwasanaethau cyngor aduno teuluoedd yng Nghymru. Gan weithio'n agos gyda'r Uwch Weithiwr Achos, bydd deiliad y swydd yn sicrhau parhad darparu gwasanaeth o ansawdd uchel, ymatebol a hygyrch i ddangos yr effaith fwyaf ar gyfer ffoaduriaid.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio fel rhan o dîm o bell i alluogi ffoaduriaid i arfer eu hawliau aduno teulu trwy gynnal gwaith achos ar Lefel 2 yr Awdurdod Cyngor Mewnfudo (ACM); recriwtio, hyfforddi a rheoli gwirfoddolwyr i gefnogi'r prosiect; rheoli perthnasoedd allweddol gyda phartneriaid allanol a sefydlu perthnasoedd newydd gyda phartneriaid addas i helpu i gyflawni amcanion y gwasanaeth; cymryd rôl flaenllaw mewn datblygu gwasanaethau yn unol ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth; arwain ar ymdrechion eiriolaeth leol a chyfrannu at ymdrechion eiriolaeth genedlaethol er mwyn cyflawni newid cadarnhaol i'n defnyddwyr gwasanaeth.

## Prif Gyfrifoldebau

### 1. Darparu a Datblygu Gwasanaethau

- Yn gyfrifol am sicrhau darparu a datblygu gwasanaeth aduno teuluoedd o ansawdd uchel yn seiliedig ar anghenion o fewn eu hardal weithredol
- Yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol ag egwyddorion cynllunio cymorth sy'n canolbwyntio ar y person, gan ymgorffori ansawdd ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau i sicrhau bod y bobl rydym yn eu cefnogi wrth galon yr hyn a wnawn.
- Darperir gwasanaethau i safonau cytunedig, gan gynnwys Cod Safonau'r ACM, ac yn unol â pholisïau, gweithdrefnau ac arferion da perthnasol
- Yn darparu cyngor cyfreithiol ac yn cefnogi gwaith achos aduno teuluoedd i ffoaduriaid ar Lefel 2 yr ACM
- Gan weithio gyda'r Uwch Weithiwr Achos a'r Rheolwr Gweithrediadau, cymryd rôl flaenllaw mewn datblygu gwasanaethau yn eu hardal yn unol ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth, gan feithrin diwylliant dysgu parhaus a sicrhau bod dysgu'n cael ei rannu a'i ymgorffori'n barhaus
- Yn cynnal dealltwriaeth ragorol o anghenion sy'n newid trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid yn eu hardal a monitro newidiadau allanol i helpu i lywio darpariaeth a datblygiad y prosiect
- Yn sicrhau bod digon o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gasglu i ategu darparu gwasanaethau effeithiol
- Yn cyfrannu'n rhagweithiol at ymdrechion eiriolaeth genedlaethol er mwyn cyflawni newid cadarnhaol i'n defnyddwyr gwasanaeth

### 2. Cydlynu a Rheoli Gwirfoddolwyr

- Yn cynnal recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr cadarn yn unol â pholisïau ac arferion da YGGB, gyda chyfeiriad at y Tîm Pobl a Dysgu a'r Uwch Weithiwr Achos a'r Rheolwr Gweithrediadau
- Yn sicrhau bod cyfleoedd i wirfoddoli neu weithio o fewn y gwasanaeth yn hygyrch i gymuned amrywiol, gan adlewyrchu natur ein defnyddwyr gwasanaeth
- Yn gyfrifol am sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael mynediad at yr hyfforddiant cywir ac yn gymwys i ddarparu gwasanaethau.
- Yn gweithio i sicrhau bod arferion gweithio cadarn a chefnogaeth arbenigol ar waith i sicrhau bod lles pob gwirfoddolwr yn cael ei gynnal a'i wella
- Yn sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau ac arferion da perthnasol yn cael eu deall a'u dilyn gan wirfoddolwyr i sicrhau amgylchedd a darpariaeth gwasanaethau diogel, effeithiol ac effeithlon yn unol â safonau cytunedig

### 3. Rheoli Perthnasoedd

- Yn adeiladu perthnasoedd effeithiol gyda chydweithwyr YGGB yn lleol i hyrwyddo cydweithredu a chydweithio ar draws gwasanaethau
- Trwy ymgysylltu allanol â chyrff statudol ac anstatudol yn y maes ffoaduriaid, mae'n cynnal ymwybyddiaeth o fylchau yn y ddarpariaeth o gefnogaeth i bobl fregus yn y lleoliad daearyddol
- Yn datblygu ac yn cynnal llwybrau atgyfeirio effeithiol i sicrhau pecyn cymorth cyfannol i ddefnyddwyr gwasanaeth
- Yn cydweithio â chyd-aelodau tîm o bell, Uwch Weithiwr Achos a Rheolwr Gweithrediadau Aduno Teulu i sefydlu perthnasoedd gweithio effeithiol a rhannu dysgu o fewn y DU

### 4. Rheoli Risg

- Yn gweithio'n gydweithredol gyda'r Uwch Weithiwr Achos a'r Rheolwr Gweithrediadau i sicrhau bod polisi, gweithdrefn a chanllawiau effeithiol ar waith o fewn y gwasanaeth ac yn cael eu dilyn yn unol â hynny.

- Yn sicrhau bod risgiau a materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn cael eu huwchgyfeirio a'u rheoli'n gyflym
- Mae risgiau gwaith achos yn cael eu nodi, eu rheoli a/neu eu huwchgyfeirio yn ôl yr angen
- Mae pryderon diogelu yn cael eu nodi ac yn derbyn ymatebion priodol yn unol â pholisïau, gweithdrefnau ac arferion d

**5. Systemau**

- Yn sicrhau bod cronfa ddata rheoli data GFf (BRM) a systemau eraill yn cael eu cynnal, bod data'n cael ei gofnodi o fewn yr amserlenni priodol, a bod y data'n cael ei ddefnyddio i helpu i fonitro a datblygu'r gwasanaethau
- Mae data'n cael ei reoli yn unol â safonau cytunedig, gan gynnwys Cod Safonau'r ACM, ac yn unol â pholisïau, gweithdrefnau ac arferion da perthnasol
- Cynhelir cyfrinachedd a diogelu data mewn perthynas â phob agwedd ar y gwasanaeth

**6. Dysgu a Datblygu**

- Sicrhau bod gweithgareddau dysgu a datblygu personol yn cael eu gweithredu yn unol â safonau cytunedig a dulliau'r sefydliad, gan gynnwys yn unol â Chynllun a Chanllawiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus yr ACM
- Mae gweithgareddau dysgu a datblygu ar gyfer gwirfoddolwyr yn cael eu gweithredu yn unol â safonau ansawdd a dulliau cytunedig y sefydliad
- Mae anghenion hyfforddiant sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi a'u rhannu yn briodol trwy'r sefydliad
- Defnyddir a hyrwyddir ymarfer myfyriol at ddibenion datblygu

**7. Aelod o'r Tîm**

- Cefnogir cydweithwyr yn ôl yr angen
- Yn cymryd rhan yn weithgar ac yn cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd tîm
- Yn darparu gorchudd wrth gefn ar gyfer cydweithwyr yn ystod cyfnodau o absenoldeb fel y gofynnir gan reolwr llinell
- Yn gweithio ac yn ymddwyn yn unol â phob polisi a gweithdrefn YGGB
- Yn cynnal egwyddorion sylfaenol Y Groes Goch ac yn gweithredu gyda gonestrwydd, yn unol â gwerthoedd y Gymdeithas (cynhwysol, caredig, dewr a deinamig)

**Dyletswyddau Eraill**

- Yn perfformio dyletswyddau clerigol a gweinyddol sy'n cyfateb i'r swydd
- Yn rhagweithiol wrth gefnogi ei datblygiad proffesiynol unigol
- Ni all staff wrthod yn afresymol gais i ymgymryd ag unrhyw dasg sy'n briodol i'w lefel ac y mae ganddynt y sgiliau a/neu'r profiad angenrheidiol ar ei chyfer. Bydd unrhyw newid sy'n deillio o hyn i'w hamcanion a'u blaenoriaethau yn cael ei drafod a'i gadarnhau gyda'u rheolwr llinell

Nid yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddisgrifir yn rhestr gynhwysfawr ac efallai y bydd tasgau ychwanegol yn cael eu neilltuo o bryd i'w gilydd sy'n unol â lefel y rôl.

## Gwiriadau Cyn Cyflogi

## Cofnodion Troseddol

**Math o wiriadau cofnodion troseddol sydd eu hangen ar gyfer y rôl hon**

| Lloegr a Chymru - Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) |
| --- |
| > Uwch - Gweithlu Plant ac Oedolion |

## Gwiriadau Gyrwyr

> Angenrheidiol – Na

## Amrywiaeth

Yn Y Groes Goch Brydeinig, rydym yn chwilio am y bobl iawn i'n helpu i ddarparu cefnogaeth i filiynau o bobl yr effeithir arnynt gan argyfwng. Rydym am i'n tîm adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, gan gynnig cyfleoedd cyfartal i bawb, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae amrywiaeth yn rhywbeth rydym yn ei ddathlu, ac rydym am i chi allu dod â'ch hunan dilys i'r Groes Goch Brydeinig. Rydym am i chi deimlo eich bod mewn amgylchedd cynhwysol, ac mewn sefyllfa wych i'n helpu i ledaenu nerth caredigrwydd.

## Manyleb Person

| **Gofynion** | Tystiolaeth a geir trwy Rhestr Fer (Rh), Cyfweliad (C), Asesiad (A) | | |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | **Rh** | **C** | **A** |
| **Hanfodol** | | | |
| - Addysg hyd at lefel A (neu brofiad cyfatebol) | **Rh** | | |
| - Cymwysedig yn ACM (Awdurdod Cyngor Mewnfudo) - Lefel 2 Lloches a Diogelu, neu'n gweithio tuag at hyn | **Rh** | **C** | |
| - Gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â ffoaduriaid a cheiswyr lloches trwy waith rheng flaen | **Rh** | **C** | **A** |
| - Rheoli gwirfoddolwyr yn effeithiol | **Rh** | **C** | |
| Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol, gallu i gynnal cofnodion cywir a rheoli ffeiliau, a sylw manwl i fanylion | **Rh** | **C** | **A** |
| - Sgiliau trefnu a rheoli amser – rheoli a monitro llwyth gwaith eich hun a llwyth gwaith eraill, ymateb i a blaenoriaethu amrywiaeth o ofynion cystadleuol | **Rh** | **C** | |
| - Sgiliau TG canolradd i uwch gan gynnwys cronfa ddata, e-bost, prosesu geiriau a phecyn taenlen. (Mae profiad blaenorol gyda chronfeydd data a/neu Systemau Rheoli Cleientiaid yn fanteisiol iawn) | **Rh** | | |
| **Dymunol** | | | |
| - Gwybodaeth am ail iaith a siaredir ymhlith y boblogaeth ffoaduriaid fel Arabeg, Pashto, Farsi a Tigrinya | **Rh** | | |

| **Profiad** | **Rh** | **C** | **A** |
|---|---|---|---|
| **Hanfodol** | | | |
| - Profiad profedig o ddarparu cyngor a gwaith achos o ansawdd uchel | **Rh** | **C** | **A** |
| - Dealltwriaeth o waith achos sy'n canolbwyntio ar y person ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys profiad o weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi profi trawma ac sydd â sawl bregusrwydd | **Rh** | **C** | |
| - Profiad o weithio mewn partneriaeth traws-asiantaeth a gweithio cydweithredol | **Rh** | **C** | |
| - Profiad o reoli, cydlynu, goruchwylio a chymell gwirfoddolwyr | **Rh** | **C** | |
| **Dymunol** | | | |
| - Profiad o gysylltu â chyrff cenedlaethol a rhyngwladol (statudol ac anstatudol) sy'n gysylltiedig â llunio polisïau, gwaith achos a chyllido<br>- Profiad personol o ymfudo a/neu wahanu oherwydd gwrthdaro neu drychineb naturiol | **Rh** | | |
| **Gofynion Ychwanegol** | **Rh** | **C** | **A** |
| **Hanfodol** | | | |
| - Dangos dealltwriaeth o Egwyddorion Sylfaenol Y Groes Goch ac enghreifftiau o weithredu yn unol ag ymrwymiadau a gwerthoedd y Gymdeithas (cynhwysol, caredig, dewr, a deinamig) | | **C** | |
| - Sicrhau arfer cynhwysol, herio gwahaniaethu a hyrwyddo amrywiaeth yn unol â'n polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) | | **C** | |
| - Glynu at bolisïau cyfleoedd cyfartal a gwrth-wahaniaethol YGGB a hyrwyddo amrywiaeth | | **C** | |
| - Parodrwydd a gallu i weithio'n annibynnol, yn ogystal â hyblygrwydd, fel rhan o dimau lleol a chenedlaethol | | **C** | |
| - Gallu gweithio oriau anghymdeithasol ar brydiau | **Rh** | | |
| - Gallu teithio'n genedlaethol yn ôl yr angen | **Rh** | **C** | |
| **Gwerthoedd ar Waith** | **Rh** | **C** | **A** |
| **Deinamig** - Rydym yn symud ymlaen fel un tîm.<br>- Bob dydd, rydym yn addasu, arloesi a dysgu.<br>- Pan fydd yr annisgwyl yn digwydd, rydym yn dawel, yn gyflym ac yn effeithlon.<br>- Rydym yn ymateb yn glyfar, gan ddefnyddio prosesau a systemau clir.<br><br>**Caredig** - Rydym yn sefyll dros garedigrwydd.<br>- Mae pobl yn dod yn gyntaf, waeth pwy neu ble maen nhw.<br>- Rydym yn cael sgyrsiau agored a gonest.<br>- Gyda'n gilydd, rydym yn rym unedig dros ddaioni.<br><br>**Cynhwysol** - Rydym yn agored i bawb.<br>- Rydym yn trin ein gilydd gyda pharch a gwerthfawrogiad.<br>- Mae unigrywiaeth pob person yn cael ei werthfawrogi, ei gefnogi a'i ddathlu. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| - Mae ein cefndiroedd a'n profiadau unigol yn gwneud ein sefydliad yn gryfach.<br><br>**Dewr** - Rydym yn feiddgar.<br>- Rydym yn dangos ein cryfder trwy wneud y peth iawn.<br>- Nid ydym yn ofni profi ein syniadau creadigol.<br>- Fel dyngarwyr, rydym yn mynd yr ail filltir i helpu pobl mewn argyfwng. | | | |

Rydym yn gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr anabl (fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010) sy'n bodloni'r meini prawf lleiaf ar gyfer ar gyfer rhestr fer yn y fanyleb person a hysbysebwyd ac yn gwneud cais o dan y cynllun hyderus o ran anabledd.